

**Y Cymun Bendigaid**

**Dathlu Gweinidogaeth**

Andrew John

Esgob Bangor, 2008-2025

Eglwys Padarn Sant, Llanberis

21 Gorffennaf 2025



**The Holy Eucharist**

**Celebration of Ministry**

Andrew John

Bishop of Bangor, 2008-2025

Saint Padarn's Church, Llanberis

21 July 2025

## Y Dod Ynghyd

**Emyn**

**[Sefyll]**

Yn enw'r Tad, a'r Mab,  
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi  
**a'th gadw di yng nghariad Crist.**

**Dad y gogoniant, sanctaidd a thragwyddol,  
edrych arnom yn awr mewn gallu a thrugaredd.  
Bydded i'th nerth orchfygu ein gwendid,  
i'th lewyrch oleuo ein dallineb,  
ac i'th Ysbryd ein denu at y cariad hwnnw  
sy'n cael ei ddangos a'i gynnig inni gan dy Fab,  
ein Gwaredwyr lesu Grist. Amen.**

A dyma air i'w gredu, sy'n teilyngu derbyniad llwyr: Daeth Crist lesu i'r byd i achub pechaduriaid.

*Distawrwydd ar gyfer hunan-ymholi*

**[Eistedd/Penlinio]**

Arglwydd lesu,  
daethost i'n cymodi â'n gilydd ac â'r Tad.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd lesu,  
yr wyt yn iacháu clwyfau pechod ac ymraniad.  
Crist, trugarha.

**Crist, trugarha.**

Arglwydd lesu,  
yr wyt yn ymbil trosom ar dy Dad.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

## The Gathering

**Hymn**

**[Stand]**

In the name of the Father, and of the Son,  
and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you  
**and keep you in the love of Christ.**

**Father of glory, holy and eternal,  
look upon us now in power and mercy.  
May your strength overcome our weakness,  
your radiance transform our blindness,  
and your Spirit draw us to that love  
shown and offered to us by your Son,  
our Saviour Jesus Christ. Amen.**

This is a true saying, to be completely accepted and believed: Christ Jesus came into the world to save sinners.

*Silence for self-examination*

**[Sit/Kneel]**

Lord Jesus,  
you came to reconcile us to one another and to the Father.  
Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

Lord Jesus,  
you heal the wounds of sin and division.  
Christ, have mercy.  
**Christ, have mercy.**

Lord Jesus,  
you intercede for us with your Father.  
Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

**Dad nefol,**  
**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,**  
**a heb wneud yr hun a ddylem.**  
**Mae'n wir ddrwg gennym, ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**  
**Er mwyn dy Fab lesu Grist a fu farw drosom,**  
**maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**  
**ac arwain ni yn ei ffordd ef**  
**i gerdded fel plant y goleuni. Amen.**

Yr Hollalluog Dduw,  
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,  
a drugarhao wrthych, a'ch rhyddhau o bechod,  
eich cadarnhau mewn daioni  
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;  
trwy lesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### **Gloria**

**[Sefyll]**

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,**  
**ac ar y ddaear tangnreffed i'r rhai sydd wrth ei fodd.**  
**Moliannwn di, bendithiwn di,**  
**addolwn di, gogoneddwon di,**  
**diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.**  
**Arglwydd Dduw, Frenin nefol,**  
**Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, lesu Grist;**  
**O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,**  
**sy'n dwyn ymaith bechod y byd,**  
**trugarha wrthym;**  
**tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,**  
**derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;**  
**ti yn unig yw'r Arglwydd;**  
**ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,**  
**sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.**

**Heavenly Father,  
we have sinned in thought, word and deed,  
and have failed to do what we ought to have done.  
We are sorry and truly repent.  
For the sake of your Son Jesus Christ who died for us,  
forgive us all that is past  
and lead us in his way  
to walk as children of light. Amen.**

Almighty God,  
who forgives all who truly repent,  
have mercy on you and set you free from sin,  
strengthen you in goodness  
and keep you in eternal life;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

**Gloria**

**[Stand]**

**Glory to God in the highest,  
and peace to his people on earth.  
Lord God, heavenly King,  
Almighty God and Father,  
we worship you, we give you thanks,  
we praise you for your glory.**

**Lord Jesus Christ, only Son of the Father,  
Lord God, Lamb of God,  
you take away the sin of the world:  
have mercy on us;  
you are seated at the right hand of the Father:  
receive our prayer.**

**For you alone are the Holy One,  
you alone are the Lord,  
you alone are the Most High,  
Jesus Christ, with the Holy Spirit,  
in the glory of God the Father. Amen.**

## **Y Colect**

Gweddïwn

Hollalluog Dduw  
a elwaist dy Eglwys i dystio  
dy fod yn cymodi'r byd yng Nghrist â thi dy hun:  
cynorthwya ni i gyhoeddi newyddion da dy gariad  
fel y bydd pawb sy'n ei glywed yn cael eu huno â thi;  
trwy'r hwn a fu farw trosom ac a atgyfododd,  
ac sy'n teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

## **Cyhoeddi'r Gair**

**2 Cronicl 20. 5-12**

**[Eistedd]**

Yn y cynulliad hwn o bobl Jwda a Jerwsalem yn nhŷ yr Arglwydd, fe safodd Jehosaffat o flaen y cyntedd newydd, a dweud, "O Arglwydd, Duw ein hynafiaid, onid ti sy'n Dduw yn y nefoedd? Ti sy'n llywodraethu ar holl deyrnasoedd y cenhedloedd; yn dy law di y mae nerth a chadernid, fel na ddichon neb dy wrthsefyll. Onid ti, ein Duw, a yrfaist drigolion y wlad hon allan o flaen dy bobl Israel, a'i rhoi hi am byth i had Abraham, dy gyfaill? Y maent hwy wedi byw yn ddi ac wedi adeiladu cysegr i'th enw di, a dweud, 'Os daw unrhyw niwed i ni trwy gleddyf, llifeiriant, haint neu newyn, yna fe safwn o'th flaen di ac o flaen y tŷ hwn, oherwydd y mae dy enw arno. Gwaeddwon arnat yn ein trybini, ac fe wrandewi di arnom a'n gwaredu.' Yn awr, dyma'r Ammoniaid, y Moabiaid a gwŷr Mynydd Seir, pobl na adewaist i Israel ymosod arnynt wrth ddod allan o'r Aifft, pobl y troes Israel i ffwrdd oddi wrthynt a pheidio â'u difetha; gwêl sut y mae'r rhain yn talu'n ôl i ni trwy ddod i'n gyrru allan o'th etifeddiaeth, a roddaist i ni. O ein Duw, oni wnei di gyhoeddi barn arnynt? Oherwydd nid ydym ni'n ddigon cryf i wrthsefyll y fintai fawr hon sy'n dod yn ein herbyn. Ni wyddom ni beth i'w wneud, ond dibynnwn arnat ti."

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

**Diolch a fo i Dduw**

## **The Collect**

Let us pray.

Almighty God  
who called your Church to witness  
that in Christ you were reconciling the world to yourself:  
help us so to proclaim the good news of your love  
that all who hear it may be united with you;  
through him who died for us and rose again,  
and reigns with you and the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. **Amen.**

## **The Proclamation of the Word**

**2 Chronicles 20. 5-12**

**[Sit]**

Jehoshaphat stood in the assembly of Judah and Jerusalem, in the house of the Lord, before the new court, and said, ‘O Lord, God of our ancestors, are you not God in heaven? Do you not rule over all the kingdoms of the nations? In your hand are power and might, so that no one is able to withstand you. Did you not, O our God, drive out the inhabitants of this land before your people Israel, and give it for ever to the descendants of your friend Abraham? They have lived in it, and in it have built you a sanctuary for your name, saying, “If disaster comes upon us, the sword, judgement, or pestilence, or famine, we will stand before this house, and before you, for your name is in this house, and cry to you in our distress, and you will hear and save.” See now, the people of Ammon, Moab, and Mount Seir, whom you would not let Israel invade when they came from the land of Egypt, and whom they avoided and did not destroy— they reward us by coming to drive us out of your possession that you have given us to inherit. O our God, will you not execute judgement upon them? For we are powerless against this great multitude that is coming against us. We do not know what to do, but our eyes are on you.’

Hear what the Spirit is saying to the Church.

**Thanks be to God.**

## **2 Corinthiaid 4. 7-18**

Ond y mae'r trysor hwn gennym mewn llestri pridd, i ddangos mai eiddo Duw yw'r gallu tra rhagorol, ac nid eiddom ni. Ym mhob peth yr ydym yn cael ein gorthrymu ond nid ein llethu, ein bwrw i ansicrwydd ond nid i anobaith, ein herlid ond nid ein gadael yn amddifad, ein taro i lawr ond nid ein dinistrio. Yr ydym bob amser yn dwyn gyda ni yn ein corff farwolaeth yr Arglwydd lesu, er mwyn i fywyd lesu hefyd gael ei ddwyn i'r amlwg yn ein corff ni. Oherwydd yr ydym ni, a ninnau'n fyw, yn cael ein traddodi yn wastad i farwolaeth er mwyn lesu, i fywyd lesu hefyd gael ei ddwyn i'r amlwg yn ein cnawd marwol ni. Felly y mae marwolaeth ar waith ynom ni, a bywyd ynoch chwi. Gan fod gennym ni yr un ysbryd crediniol yr ysgrifennir amdano yng ngeiriau'r Ysgrythur, "Credais, ac am hynny y lleferais", yr ydym ninnau hefyd yn credu, ac am hynny yn llefaru, gan wybod y bydd i'r hwn a gyfododd yr Arglwydd lesu ein cyfodi ninnau hefyd gyda lesu, a'n gosod ger ei fron gyda chwi. Oherwydd er eich mwyn chwi y mae'r cyfan, fel y bo i ras Duw fynd ar gynnydd ymhliith mwy a mwy o bobl, ac amlhau'r diolch fwyfwy er gogoniant Duw.

Am hynny, nid ydym yn digaltonni. Er ein bod yn allanol yn dadfeilio, yn fewnol fe'n hadnewyddir ddydd ar ôl dydd. Oherwydd y baich ysgafn o orthrymder sydd arnom yn awr, darparu y mae, y tu hwnt i bob mesur, bwysau tragwyddol o ogoniant i ni, dim ond inni gadw'n golwg, nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau na welir. Dros amser y mae'r pethau a welir, ond y mae'r pethau na welir yn dragwyddol.

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

**Diolch a fo i Dduw**

**Caneuon Mawl**

**[Sefyll]**

## **2 Corinthians 4. 7-18**

But we have this treasure in clay jars, so that it may be made clear that this extraordinary power belongs to God and does not come from us. We are afflicted in every way, but not crushed; perplexed, but not driven to despair; persecuted, but not forsaken; struck down, but not destroyed; always carrying in the body the death of Jesus, so that the life of Jesus may also be made visible in our bodies. For while we live, we are always being given up to death for Jesus' sake, so that the life of Jesus may be made visible in our mortal flesh. So death is at work in us, but life in you. But just as we have the same spirit of faith that is in accordance with scripture—'I believed, and so I spoke'—we also believe, and so we speak, because we know that the one who raised the Lord Jesus will raise us also with Jesus, and will bring us with you into his presence. Yes, everything is for your sake, so that grace, as it extends to more and more people, may increase thanksgiving, to the glory of God.

So we do not lose heart. Even though our outer nature is wasting away, our inner nature is being renewed day by day. For this slight momentary affliction is preparing us for an eternal weight of glory beyond all measure, because we look not at what can be seen but at what cannot be seen; for what can be seen is temporary, but what cannot be seen is eternal.

Hear what the Spirit is saying to the Church.

**Thanks be to God.**

**Worship Songs**

**[Stand]**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Luc. **Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

Dychwelodd Iesu yn nerth yr Ysbryd i Galilea. Aeth y sôn amdano ar hyd a lled y gymdogaeth. Yr oedd yn dysgu yn eu synagogau ac yn cael clod gan bawb.

Daeth i Nasareth, lle yr oedd wedi ei fagu. Yn ôl ei arfer aeth i'r synagog ar y dydd Saboth, a chododd i ddarllen. Rhoddwyd iddo lyfr y proffwyd Eseia, ac agorodd y sgrôl a chael y man lle'r oedd yn ysgrifenedig:

“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,  
oherwydd iddo f'eneinio  
i bregethu'r newydd da i dlodion.

Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion,  
ac adferiad golwg i ddeillion,  
i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd,  
i gyhoeddi blwyddyn ffafri'r Arglwydd.”

Dyma Efengyl yr Arglwydd. **Moliant i ti, O Grist.**

## **Y Bregeth**

**[Eistedd]**

## **Cadarnhau'r Ffydd**

**[Sefyll]**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,  
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,  
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,  
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
Dad, Mab ac Ysbryd Glân. Amen.**

**Luke 4. 14-19**

**[Stand]**

Listen to the Gospel of Christ according to Saint Luke.

**Glory to you, O Lord.**

Then Jesus, filled with the power of the Spirit, returned to Galilee, and a report about him spread through all the surrounding country. He began to teach in their synagogues and was praised by everyone.

When he came to Nazareth, where he had been brought up, he went to the synagogue on the sabbath day, as was his custom. He stood up to read, and the scroll of the prophet Isaiah was given to him. He unrolled the scroll and found the place where it was written:

"The Spirit of the Lord is upon me,  
because he has anointed me  
to bring good news to the poor.  
He has sent me to proclaim release to the captives  
and recovery of sight to the blind,  
to let the oppressed go free,  
to proclaim the year of the Lord's favour."

This is the Gospel of the Lord. **Praise to you, O Christ.**

**The Sermon**

**[Sit]**

**An Affirmation of the Faith**

**[Stand]**

**I believe and trust in God the Father,  
who created all that is.**

**I believe and trust in his Son Jesus Christ,  
who redeemed humankind.**

**I believe and trust in his Holy Spirit,  
who gives life to the people of God.**

**I believe and trust in one God,  
Father, Son and Holy Spirit. Amen.**

## Yr Ymbiliau

[*Eistedd/Penlinio*]

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**gwrando ein gweddi.**

**Dad trugarog,  
derbyn y gweddiâu hyn  
er mwyn dy Fab,  
ein Gwaredwr lesu Grist. Amen.**

## Y Tangnefedd

[*Sefyll*]

Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn eich calonnau; i hyn y cawsoch eich galw, yn un corff. Y mae cariad Duw eisoes wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Tangnefedd yr Arglywydd a fo gyda chwi bob amser.

**A hefyd gyda thi.**

Gadewch inni offrymu i'n gilydd arwydd o dangnefedd Duw.

*Gellir cyfnewid arwydd tangnefedd.*

## Emyn

### Y Diolch

Dathlwn gyda'n gilydd roddion a gras Duw.

**Cymerwn y bara hwn,  
cymerwn y gwin hwn  
i ddilyn esiampl Crist  
ac i uuddhau i'w orchymyn.**

Y mae'r Arglywydd yma.

**Y mae ei Ysbryd gyda ni.**

Dyrchefwch eich calonnau.

**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglywydd.**

Diolchwn i'r Arglywydd ein Duw.  
**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

## The Intercessions

[*Sit/Kneel*]

Lord, in your mercy,  
**hear our prayer.**

**Merciful Father,**  
**accept these prayers**  
**for the sake of your Son,**  
**our Saviour Jesus Christ. Amen.**

## The Peace

[*Stand*]

Let the peace of Christ rule in our hearts; to this peace we are called as members of one body. God's love has been poured into our hearts through the Holy Spirit he has given us.

The peace of the Lord be with you always  
**And also with you.**

Let us offer one another a sign of God's peace.

*A sign of peace may be exchanged.*

## Hymn

## The Thanksgiving

We celebrate together the gifts and grace of God.

**We take this bread,**  
**we take this wine**  
**to follow Christ's example**  
**and obey his command.**

The Lord is here.  
**His Spirit is with us.**

Lift up your hearts.  
**We lift them to the Lord.**

Let us give thanks to the Lord our God.  
**It is right to give our thanks and praise.**

lawn yn wir,  
ein dyletswydd a'n llawenydd  
bob amser ac ym mhob lle yw rhoi diolch a moliant i ti,  
Dad sanctaidd, Frenin nefol, hollalluog a bythfywiol Dduw,  
trwy lesu Grist dy unig Fab ein Harglwydd.

A gysegrodd y rhai a dderbyniodd ei alwad  
i ddilyn ffordd y groes.  
Trwyddo ef gelwaist  
y rhai a ordeiniwyd i weinidogaethu yn dy Eglwys  
i gyhoeddi'r newyddion da,  
i ofalu am dy bobl  
ac i weinyddu mewn llawenydd  
sacramentau dy deyrnas.

Felly, gydag angylion ac archangylion,  
a holl gwmpeini'r nef  
cyhoeddwn dy enw mawr a gogoneddus,  
gan dy foli bob amser a dweud:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,  
Duw gallu a nerth,  
nef a daear sy'n lawn o'th ogoniant.  
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd  
Hosanna yn y goruchaf.**

Clyw ni, Dad nefol,  
trwy lesu Grist dy Fab ein Harglwydd.  
Trwyddo ef derbyn ein haberth o foliant,  
a chaniatâ, trwy nerth dy Ysbryd,  
i'r rhoddion hyn o fara a gwin fod i ni  
ei gorff a'i waed ef.

Y nos y bradychwyd ef,  
cymerodd fara a rhoi diolch i ti;  
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud,  
Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch.  
Gwnewch hyn er cof amdanaf.

It is indeed right,  
it is our duty and our joy  
at all times and in all places to give you thanks and praise,  
holy Father, heavenly King, almighty, everlasting God,  
through Jesus Christ your only Son our Lord.

Who consecrated those who obeyed his call  
to follow the way of the cross.

Through him you have called  
those ordained for ministry in your Church  
to proclaim the good news,  
to care for your people  
and to celebrate joyfully  
the sacraments of your kingdom.

Therefore with angels and archangels  
and with all the company of heaven  
we proclaim your great and glorious name,  
for ever praising you and saying:

**Holy, holy, holy Lord,  
God of power and might,  
heaven and earth are full of your glory.  
Hosanna in the highest.**

**Blessed is he who comes in the name of the Lord.  
Hosanna in the highest.**

Hear us, heavenly Father,  
through Jesus Christ your Son our Lord.  
Through him accept our sacrifice of praise,  
and grant that, by the power of your Spirit,  
these gifts of bread and wine may be for us  
his body and his blood.

Who in the same night that he was betrayed  
took bread and gave you thanks;  
he broke it and gave it to his disciples, saying,  
Take, eat; this is my body which is given for you.  
Do this in remembrance of me.

Yr un modd, ar ôl swper, cymerodd y cwpan a rhoi diolch i ti;  
fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud,  
Yfwch o hwn, bawb;  
oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod newydd,  
a dywelltir drosoch a thros lawer  
er maddeuant pechodau.  
Gnewch hyn, bob tro yr yfwch ef,  
er cof amdanaf.

Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:

**Bu farw Crist.**

**Atgyfododd Crist.**

**Daw Crist mewn gogoniant.**

Felly, O Dad,  
gan gofio angau achubol ac atgyfodiad dy Fab,  
offrymwn i ti mewn diolch y bara hwn a'r cwpan hwn,  
dy roddion inni,  
a diolchwn i ti am ein cyfrif yn deilwng  
i sefyll yn dy wŷdd a'th wasanaethu.

Anfon dy Ysbryd Glân ar bawb ohonom  
sy'n rhannu'r bara hwn a'r cwpan hwn.  
Cryfha ein ffydd, gwna ni'n un  
a chroesawa ni a'th holl bobl  
i deyrnas ogoneddus dy Fab.

Trwyddo ef, gydag ef, ac ynddo ef,  
yn undod yr Ysbryd Glân  
eiddot ti, Dad hollalluog,  
yw'r holl anrhydedd a'r gogoniant  
yn oes oesoedd.

**Amen.**

In the same way, after supper, he took the cup and gave you thanks;  
he gave it to them, saying,  
Drink from this, all of you;  
for this is my blood of the new covenant  
which is shed for you and for many  
for the forgiveness of sins.  
Do this, as often as you drink it,  
in remembrance of me.

Let us proclaim the mystery of faith:

**Christ has died.**

**Christ is risen.**

**Christ will come in glory.**

Therefore, Father,  
remembering the saving death and resurrection of your Son  
we offer to you in thanksgiving this bread and this cup,  
your gifts to us,  
and we thank you for counting us worthy  
to stand in your presence and serve you.

Send your Holy Spirit upon all of us  
who share this bread and this cup.  
Strengthen our faith, make us one  
and welcome us and all your people  
into the glorious kingdom of your Son.

Through him, with him, in him,  
in the unity of the Holy Spirit  
all honour and glory are yours,  
almighty Father,  
for ever and ever.

**Amen.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**[Eistedd/Penlinio]**

**Ein Tad,**  
**yr hwn wyt yn y nefoedd,**  
**sancteiddier dy enw,**  
**deled dy deyrnas,**  
**gwneler dy ewyllys;**  
**megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.**  
**Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol**  
**a maddau i ni ein dyledion,**  
**fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.**  
**Ac nac arwain ni i brofedigaeth;**  
**eithr gwared ni rhag drwg.**  
**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,**  
**a'r gallu, a'r gogoniant,**  
**yn oes oesoedd. Amen.**

## **Y Cymun**

*Mae'r Esgob yn torri'r bara.*

Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.

**A ninnau'n llawer, un corff ydym, gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.**

**Iesu, Oen Duw:**  
**trugarha wrthym.**

**Iesu, sy'n dwyn ein pechodau:**  
**trugarha wrthym.**

**Iesu, iachawdwr y byd:**  
**dyro inni dy dangnafedd.**

Iesu yw Oen Duw  
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.  
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.  
**Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**  
**ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

*Mae'r Esgob a'r bobl yn derbyn y cymun.*

As our Saviour taught us, we boldly pray:

**[Sit/Kneel]**

**Our Father who art in heaven,  
hallowed be thy name,  
thy kingdom come,  
thy will be done,  
on earth as it is in heaven.  
Give us this day our daily bread.  
And forgive us our trespasses  
as we forgive those  
who trespass against us.  
And lead us not into temptation,  
but deliver us from evil.  
For thine is the kingdom,  
the power and the glory,  
for ever and ever. Amen.**

## **The Communion**

*The Bishop breaks the bread.*

We break this bread to share in the body of Christ.

**Though we are many, we are one body for we all share in one bread.**

**Jesus, Lamb of God:  
have mercy on us.**

**Jesus, bearer of our sins:  
have mercy on us.**

**Jesus, redeemer of the world:  
give us your peace.**

Jesus is the Lamb of God  
who takes away the sins of the world.  
Happy are those who are called to his supper.  
**Lord, I am not worthy to receive you,  
but only say the word and I shall be healed.**

*The Bishop and people receive the communion.*

Diolchwr i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:  
**ei gariad sy'n dragwydd.**

Rhoddwr tragwyddol cariad a nerth,  
danfonodd dy Fab lesu Grist ni i'r holl fyd  
i bregethu efengyl ei deyrnas:  
Cadarnha ni yn y genhadaeth hon,  
a helpa ni i fyw'r newyddion da a gyhoeddwn;  
trwy lesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

**Dduw tragwyddol,**  
**cysur y gorthrymedig ac iachäwr y drylliedig,**  
**porthaist ni wrth fwrdd bywyd a gobaith.**  
**Dysg inni lwybrau addfwynder a thangnefedd,**  
**er mwyn i'r holl fyd gydnabod**  
**teyrnas dy Fab,**  
**Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.**

## **Gosod Arwyddion y Weinidogaeth Esgobol i Lawr**

**[Eistedd]**

*Y Modrwy (Arwydd y Sêl a'r Gyfamod)*

Arglwydd lesu Grist,  
Fe'm gelwaist i wisgo dy sêl a'm rhwymo mewn cariad at y bobl hyn.  
Rwy'n gosod y fodrwy hon; nid mewn colled, ond mewn ymddiried,  
oherwydd dy ffyddlondeb di yw'r sêl barhaus ar fy enaid.  
Bydded imi barhau i sefyll dros dy Efengyl,  
i gerdded yn dy lwybr,  
ac i dystio i'th enw mewn pob man y'm gelwi.

**Crist gyda thi, o'th flaen a'th ôl,**  
**Crist danat ac uwch dy ben,**  
**Crist mewn tawelwch ac mewn perygl.**  
**Cerdd a ymlaen mewn ffydd ac mewn tangnefedd.**

Give thanks to the Lord for he is gracious:  
**his love is everlasting.**

Eternal Giver of love and power,  
your Son Jesus Christ has sent us into all the world  
to preach the gospel of his kingdom:  
confirm us in this mission,  
and help us to live the good news we proclaim;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

**Eternal God,**  
**comfort of the afflicted and healer of the broken,**  
**you have fed us at the table of life and hope:**  
**teach us the ways of gentleness and peace,**  
**that all the world may acknowledge**  
**the kingdom of your Son,**  
**Jesus Christ our Lord. Amen.**

### Laying Down the Signs of Episcopal Ministry

**[Sit]**

#### *The Ring (The Sign of Covenant and Seal)*

Lord Jesus Christ,  
You called me to bear your mark and bind myself in love to this people.  
I lay down this ring; not in loss, but in trust,  
for your faithfulness is my constant seal.  
I will still stand for your Gospel, still walk in your way,  
and still bear witness to your name,  
in every place you call me to go.

**Christ with you, before and behind you,**  
**Christ beneath you and above you,**  
**Christ in quiet and in danger.**  
**Walk on in faith and peace.**

## *Y Mitr (Arwydd Tân yr Ysbryd Glân)*

Ysbryd Glân,  
Fe ddisgynnaist fel Tân ar dy bobl a rhoist fywyd i'm gweinidogaeth.  
Rwy'n gosod y mitr hon; nid wedi ei diffodd, ond yn llosgi'n fyw,  
oherwydd mae dy dân yn dal i losgi ynof.  
Gwna fi'n wrandäwr ffyddlon,  
yn ddysgwr parhaus,  
ac yn gariadus bob amser,  
yn llosgi â'th ddoethineb a'th lawenydd.

**Crist yng nghalon pawb sy'n dy garu,  
Crist yng ngenau cyfaill ac estron,  
Crist ym mhob llygad sy'n dy weld.  
Llosga ymlaen mewn gwirionedd a gobaith.**

## *Y Staff Bugeiliol (Arwydd yr Awdurdod Bugeiliol)*

Grist y Bugail,  
Fe roddaisit y ffôn imi i ofalu am dy braidd ac i gerdded gyda'th bobl.  
Rwy'n ei osod i lawr; nid yn camu'n ôl, ond yn camu ymlaen,  
oherwydd ti yw'r Bugail ffyddlon yn dragwydd.  
Arwain fi hyd yn oed nawr at ddyfroedd tawel,  
a dos a mi lle mae dy drugaredd yn fwyaf ei hangen.

**Crist danat fel sylfaen,  
Crist uwch dy ben fel goleuni,  
Crist wrth dy ochr fel cymar.  
Ewch ymlaen mewn dewrder a chariad.**

## *Mae'r Esgob yn wynebu'r gynulleidfa*

O Dduw,  
Fe'm gelwaist i wasanaethu fel Esgob yn y lle hwn,  
ac yn awr rwyt yn fy ngalw i lwybrau newydd o dystiolaeth.  
Rwy'n gosod y swydd hon i lawr; nid fel diwedd, ond fel troad,  
o un bennod i'r llall.  
Cyhyd ag y bydd gennyf anadl, molaf dy enw,  
a'm troed a cherdd a yn dy lwybr.

### *The Mitre (The Sign of the Spirit's Flame)*

Holy Spirit,  
You rested like fire upon your people and breathed life into my ministry.  
I lay down this mitre; not extinguished, but ablaze,  
for your flame still burns within me.  
Keep me ever listening, ever learning, ever loving,  
aflame with your wisdom and joy.

**Christ in the heart of all who love you,  
Christ in the mouth of friend and stranger,  
Christ in every eye that sees you.  
Burn on in truth and hope.**

### *The Pastoral Staff (The Sign of Pastoral Oversight)*

Shepherd Christ,  
You lent me your staff to tend your flock and walk beside your people.  
I lay down this crozier; not stepping back, but stepping onward,  
for you remain the true and faithful shepherd.  
Lead me still by quiet waters,  
and send me where your mercy is needed most.

**Christ beneath you as foundation,  
Christ above you as light,  
Christ beside you as companion.  
Go on in courage and love.**

### *The Bishop faces the congregation*

O God,  
You called me to serve as Bishop in this place,  
and now you call me into new ways of witness.  
I lay down this office; not as an end, but as a turning,  
from one chapter to another.  
As long as I have breath, I will speak your praise,  
and follow where your path leads.

**Crist yn dy godi ac yn dy orffwys,  
Crist yn dy lefaru ac yn dy dawelwch,  
Crist yn dy fywyd ac yn dy angau.  
Arhosa ynddo, fel y mae ef yn aros ynot ti.**

*Mae Esgob Andrew yn cael ei fendithio*

Boed i Grist, yr hwn a'th alwodd, gerdded gyda thi o hyd.  
Boed i'r Ysbryd a'th eneinio tanio'r fflam ynot bob dydd.  
Boed i'r Bugail a roddodd y ffôn iti dy arwain ymlaen mewn tangnefedd.

Wrth iti osod dy swydd i lawr,  
boed i gariad dy rwymo,  
doethineb dy arwain,  
a dewrder dy gynnal.

A bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnat ac a drigo gyda thi nawr ac yn wastad. Amen.

*Mae'r gynulleidfa yn cael ei fendithio*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

**[Sefyll]**

**A hefyd gyda thi.**

Daw'n cymorth yn Enw'r Arglwydd.

**Creawdwr nef a daear.**

Bendigedig fyddo Enw'r Arglwydd.

**Yn awr ac am byth.**

Bydded i Grist y Bugail da, a roddodd ei fywyd dros y defaid, ein dwyn ni a phawb sy'n gwrando ar ei lais ynghyd i un gorlan; a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

**Emyn**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Argwlydd.

**Yn enw Crist. Amen.**

**Christ in your rising and your resting,  
Christ in your speaking and your silence,  
Christ in your life and in your death.  
Remain in him, as he remains in you.**

*Bishop Andrew is blessed*

May Christ who called you still walk beside you.  
May the Spirit who anointed you kindle the flame anew each day.  
May the Shepherd who gave you the staff now lead you on in peace.

As you lay down this office,  
may love still bind you,  
wisdom still guide you,  
and courage still uphold you.

And the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit, be upon you and remain with you now and always. Amen.

*The congregation is blessed*

The Lord be with you.

**[Stand]**

**And also with you.**

Our help is in the Name of the Lord.

**Who has made heaven and earth.**

Blessed be the Name of the Lord.

**Now and for ever.**

Christ the good Shepherd, who laid down his life for the sheep, bring us and all who hear his voice into one fold; and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit, be among you and remain with you always. **Amen.**

**Hymn**

Go in peace to love and serve the Lord.

**In the name of Christ. Amen.**